# Cyngor Cymuned Dolbenmaen

Cofnodion Cyfarfod Misol y Cyngor a gynhaliwyd ar y **4ydd o Fehefin** yng Nghanolfan Gymdeithasol Golan am **7yh.**

| | | |
|---|---|---|
| 1. | Siaradwr Gwadd | Croesawyd Jack Peyton i'r cyfarfod fel Uwch Warden Parc Cenedlaethol Eryri. Rhoddodd ddiweddariad yn dilyn cyfarfod safle gyda Clifford Williams a John Jones ar Graig y Garn.<br><br>Dywedodd ei fod wedi cyfarfod â Dewi Owen o Gyngor Gwynedd, a bod pawb yn fodlon cydweithio ar y gilffordd sy'n arwain at Gae Amos. Nododd y bydd cost y gwaith yn dylanwadu ar bryd y caiff ei gyflawni. Eglurodd mai'r darn gwlyb yw'r flaenoriaeth, a'r cam cyntaf fydd ailagor y draen i weld a fydd hynny'n datrys y broblem. Ychwanegodd fod bwriad i adnewyddu'r holl gamfeydd a gosod giât a giât mochyn i'r tir agored. Dywedodd hefyd ei fod wedi cyfarfod â pherchennog Plas yr Hendre, sydd yn gefnogol ac yn barod i gydweithio.<br><br>Cafwyd cyfle i drafod pryderon pellach ynghylch llwybrau o fewn y gymuned gyda Jack.<br><br>Mynegwyd pryder am gyflwr giât Cwm Bach i Bant Ifan. Awgrymodd Jack y dylid rhoi gwybod i Gyngor Gwynedd a chynnwys y mater yn yr e-bost. Clerc i weithredu.<br><br>Soniodd MLW bod llawer o bobl yn cerdded yng Nghwm Ystradllyn ac yn siomedig na allant gerdded ar hyd yr hen dramffordd. Dywedodd Jack ei fod wedi cyfarfod â CADW a thirfeddianwyr, a'i fod hefyd wedi ceisio trefnu cyfarfod â Chyngor Gwynedd i drafod y llwybr, ond heb lwyddiant hyd yma.<br><br>Gofynnwyd i Jack beth ddylid ei wneud os yw llwybr ar fap yn anghywir. Dywedodd y dylid cysylltu â Chyngor Gwynedd, ond y gall y broses fod yn hir. Awgrymodd y gallai gosod nodwr llwybr yn y tymor byr helpu i gyfeirio cerddwyr ar hyd y llwybr cywir.<br><br>Soniodd Jack ei fod wedi ymweld â Chwm Ciprwth yn ddiweddar ac wedi nodi bod y strwythur yno'n beryglus. Bydd arwydd rhybudd yn cael ei osod y tu allan i'r strwythur yn fuan.<br><br>Diolchwyd i Jack Peyton am fynychu a rhoi o'i amser. Nodwyd bod y drafodaeth wedi bod yn hynod fuddiol ac wedi rhoi cyfle i feithrin perthynas waith da. |
| 2. | Presennol: | John Till (Cadeirydd), Edward Evans (Bryncir) Huw Pritchard , Raymond Jones (Pentrefelin), Enid Egginton, Clifford Williams (Garndolbenmaen) Megan Lloyd Williams (Golan), Iddon Edwards (Penmorfa), Richard Williams, Gwilym Evans (Prenteg) Cynghorydd Stephen Churchman a'r Cynghorydd June Jones. |
| 3. | Ymddiheuriadau: | Richard Parry (Bryncir), John Jones (Garndolbenmaen) a Gwenno Emlyn Huws (Penmorfa) |

| | | |
|---|---|---|
| 4. | Ddim yn bresennol: | Neb |
| 5. | Datgan Buddiant: | Neb |
| 6. | Cywirdeb y cyn-gofnodion : | RW yn cynnig a GE yn eilio. Pawb yn cydweld. |
| 7. | Materion yn codi o'r cyn-gofnodion: | **Cyfrif Cadw HTB –** Clerc yn parhau i gael trafferth i agor cyfrif cadw newydd. Clerc i barhau i drio.<br><br>**Prenteg -** Trafodwyd yr ymateb a dderbyniwyd gan Iwan ap Trefor i bryder am eu penderfyniad i beidio gostwng y terfyn cyflymder i 30mya. Dywedodd nad yw Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi eu canllawiau newydd ynghylch gosod cyfyngiadau cyflymder ar ein ffyrdd ac oherwydd y newidiadau diweddar yn y Llywodraeth, mae'r mater bellach yn eistedd gyda'r gweinidogion newydd. Nodwyd nad yw'r ymateb ar rheswm roddwyd uchod yn ddigonol. Dywedodd y Cynghorydd June Jones ei bod am drafod y mater ymhellach.<br><br>Awgrymwyd bod angen mwy o arwyddion araf neu darmac gwrth - lithro.<br><br>Nid oes chevrons wedi'i osod chwaith ar Bont y Traeth fel gwnaethant addo a dydi'r arwydd llifogydd dal ddim yn gweithio.<br><br>**Lloches Bws Penmorfa -** Derbyniwyd gwybodaeth gan yr Uned Drafnidiaeth nad yw bysus yn stopio ger y lloches oherwydd y rheiliau metel, ond mae'r rheiliau metel wedi'i osod yna i warchod y bobl sydd yn aros am fws yn y lloches. Nid yw'r rheswm yma yn gwneud synnwyr. Gofynnwyd i'r Clerc gysylltu â nhw ymhellach am y mater yma. |
| 8. | Mynwentydd: | **Mynwent Penmorfa –** SCH wedi cysylltu â Chyngor Gwynedd ond heb dderbyn ymateb hyd yma. SCH am fynd ar ôl ymateb ac adrodd yn ôl i'r achwynydd.<br><br>Clerc i wirio os oes map i'w gael o fynwent Penmorfa i wirio pa ddarn sydd yn berchen i'r Eglwys a pha ddarn sydd yn berchen i'r Cyngor Cymuned.<br><br>**Archwiliadau Mynwentydd –** Dosbarthwyd ffurflenni archwilio. Archwiliadau i'w cwblhau cyn ein cyfarfod misol nesaf. Angen dychwelyd y ffurflenni i'r Clerc er mwyn cofnodi a gweithredu os oes angen. |
| 9. | Llwybrau Cyhoeddus: | Dim pellach i adrodd am lwybrau'r ardal. |
| 10. | Adroddiad Pentrefi: | **Pentrefelin -** Mae angen rhoi chwynladdwr o amgylch y pentref a Bryn Tyddyn. Clerc i gysylltu â'r Uned Cynnal Tiroedd.<br><br>Adroddwyd bod mwy o geir yn parcio ar y palmant y tu allan i Dŷ Capel Cedron. Dywedodd y Clerc ei bod wedi cael ymateb gan yr Heddlu yn cadarnhau eu bod yn ymwybodol o'r mater ac yn |

| | | |
|---|---|---|
| | | bwriadu siarad â pherchennog y fan. Mae'r Clerc wedi gofyn am adborth, ond nid oes dim wedi'i glywed hyd yma. Clerc i barhau i geisio cael adborth gan yr Heddlu.<br><br>Soniwyd bod llawer o geir yn parcio ar ochr y ffordd o'r tai cymdeithasol hyd at fynedfa Bryn Tyddyn. Mae SCH yn ymwybodol o hyn ac wrthi'n casglu barn y gymuned ar y ffordd orau ymlaen. Nodwyd y byddai gosod llinellau melyn yn debygol o greu mwy o broblemau.<br><br>Soniodd RW fod arwydd mawr bellach wedi'i osod ym Mhrenteg i rybuddio gyrwyr lori am y bont isel ym Meddgelert. Awgrymwyd y gallai hyn fod yn opsiwn addas ym Mhentrefelin hefyd. Clerc i gysylltu â'r Uned Draffig.<br><br>**Garndolbenmaen -** Lloches bws dal heb ei glirio. Clerc i gysylltu â Chyngor Gwynedd. SCH wedi rhoi datganiad i'r heddlu. Dal i aros am linc er mwyn gallu anfon lluniau o'r difrod. Dywedodd yr heddlu y bydd angen pris i drwsio'r difrod, clerc i weithredu.<br><br>Soniodd EE bod y sgrin glyfar yn y neuadd wedi cael ei ddefnyddio ddwywaith yn barod a'u bod yn hapus iawn gydag o.<br><br>**Bryncir - Safle Bws –** Mae darn o dir wedi'i nodi fel opsiwn ymarferol, gan ei fod yn ymddangos ar fap Cyngor Gwynedd fel tir sy'n perthyn i Adran Amgylchedd y Cyngor. Fodd bynnag, oherwydd ei leoliad ger y gefnffordd, bydd angen cyngor pellach gan swyddogion perthnasol y Cyngor a'r Asiant Cefnffyrdd.<br><br>Cadarnhawyd y gall YGC baratoi opsiwn dylunio i wella'r safle presennol. Serch hynny, bydd unrhyw gynllun diwygiedig yn dal i ofyn am y cymeradwyaethau perthnasol, ymgynghori â Llywodraeth Cymru/NMWTRA, a Chyfarwyddiad Diogelwch Ffyrdd ychwanegol. Oherwydd yr amserlen, mae'n annhebygol y bydd modd cwblhau'r gwaith o fewn y flwyddyn ariannol hon.<br><br>**Penmorfa –** Dim i'w adrodd<br><br>**Prenteg -** Arwydd cae chwarae wedi cael ei chwythu ffordd anghywir gan y gwynt. Nid yw'r arwydd yn gyraeddadwy neu byddai GE wedi ei gywiro ei hun. Clerc i gysylltu hefo'r Cyngor i ofyn iddynt wneud.<br><br>Ochrau ffyrdd wedi cael eu clirio yn barod ar gyfer ail wynebu'r ffordd ym Mhrenteg ond mae beth sydd wedi cael ei glirio wedi cael ei bentyrru ar yr ochr ac yn debygol o greu llanast pan ddaw yn amser i dorri'r tir. Y Cynghorydd June Jones am gysylltu hefo'r Cyngor am hyn. |

| | | |
|---|---|---|
| | | **Golan -** Pryder nad yw BT bellach yn cynnig slot bore a slot prynhawn , dim ond slot dyddiol. Mae hyn yn hynod o anhwylus. Gofynnwyd i'r Clerc gysylltu â BT.<br><br>Y gridiau gwartheg dal heb eu trwsio. Dywedodd y clerc ei bod wedi gofyn am ddyddiad ganddynt ar gyfer trwsio ond heb glywed yn ôl. Gofynnwyd i'r Clerc barhau i gael ateb.<br><br>Adroddwyd fod y ffordd i lawr o Dyddyn i Gronfa Ddŵr Cwmystradllyn mewn cyflwr ofnadwy. Clerc i adrodd i Dŵr Cymru. |
| 11. | Grant Gwynedd Ni | Adroddodd y Clerc ei bod wedi holi am brisiau ar gyfer gwaith tacluso a phlannu planhigion yn y Ganolfan ym Mhentrefelin. Er bod contractwyr wedi bod allan i weld pa waith sydd ei angen does dim prisiau wedi'i dderbyn hyd yma. Clerc i fynd ar ôl y contractwyr am brisiau. HP i drefnu pris planhigion a llafur.<br><br>Adroddodd IE nad oes neb wedi bod allan i brisio gwaith ar gyfer gwella maes parcio'r neuadd ym Mhenmorfa. Clerc i gysylltu eto i geisio cael prisiau.<br><br>Clerc wedi cysylltu hefo Ffion Gwyn i gael pris i greu bwrdd gwybodaeth i ddathlu canmlwyddiant ers marwolaeth y bardd Eifion Wyn sydd â chyswllt cryf a Chwm Pennant.<br><br>Mainc Bryn Tyddyn, Pentrefelin – dal i aros pris.<br><br>Soniodd GE y byddai'r neuadd ym Mhrenteg yn falch o gael mainc tu allan. GE am gael pris a rhoi gwybod i'r Clerc. |
| 12. | Archwiliad Mewnol | Adroddodd y Clerc bod y cyfrifon wedi dod yn ôl gan yr archwilydd mewnol ac nad oedd unrhyw bryderon wedi'i godi a'u nodi ar yr adroddiad archwilio.<br><br>Aeth y Clerc drwy'r Datganiad Cyfrifyddu a Llywodraethu Blynyddol. Bu i'r Cyngor Cymuned ei dderbyn a'i gymeradwyo. Arwyddodd y Clerc, sef y Swyddog Ariannol Priodol a'r Cadeirydd y Ffurflen Flynyddol, ddyddiedig y 4ydd o Fehefin, 2026.<br><br>Bydd y Clerc yn paratoi i anfon bob dim ymlaen i Archwilio Cymru.<br><br>Diolchwyd i'r Clerc am ei gwaith. |
| 13. | Gohebiaeth | a. Gorchymyn Cyngor Gwynedd (Llwybr Troed Cyhoeddus Rhif 18 yng Nghymuned Dolbenmaen) (Gwaharddiad Defnydd Dros Dro) 2026 – gyferbyn a Bryn Efail Uchaf - Rhannwyd<br>b. Rhaglen Waith Mis Mehefin – Adran Priffyrdd, Peirianneg a YGC - Rhannwyd |
| 14. | Gohebiaeth Ychwanegol | a. Unllais Cymru - Hyfforddiant Mai a Mehefin. Rhannwyd a thrafodwyd bod yna lawer o hyfforddiant ar gael ac os oes gan unrhyw un diddordeb mynychu, yna iddynt gysylltu hefo'r Clerc. |
| 15. | Cynllunio | Rhestrau: 4/5, 11/5, 18/5 a 25/5 |

| | | |
|---|---|---|
| | | Ceisiadau Cynllunio<br><br>**C26/0324/44/LL – Bywyd Gwyllt Glaslyn, Prenteg, LL49 9SP**: Cais i ailosod decin, cladin, rampiau a grisiau o amgylch adeilad presennol y ganolfan wylio gwalch y pysgod,<br>ymestyn y decin i dair ochr yr adeilad i gynnwys ardal biniau (ochr orllewinol). Lleoli dysgl microdon yng nghornel gogledd-ddwyrain yr adeilad i ymestyn 1m uwchben lefel y to. Gosod tŵr dur delltog newydd i gynnal camera PTZ, uchder 7m a 5.1m o led, 2m o ganol ochr orllewinol y guddfan. **Dim gwrthwynebiad.**<br><br>**C26/0305/36/LL – Llystyn Gwyn, Bryncir, Garndolbenmaen, Gwynedd, LL51 9LX**: Codi adeilad amaethyddol newydd ar gyfer cadw gwartheg o dan do dros y gaeaf gyda storfa slyri o dan y llawr. **Dim gwrthwynebiad.** |
| 16. | Materion Ariannol | Materion Ariannol<br><br>Ceisiadau am arian: Dim<br><br>Monitro'r gyllideb : Dim gorwariant<br><br>Biliau i'w talu<br><br>Cyflog Clerc £347.32<br>Ffôn £ 15.00<br>Cyfrifiadur £ 20.00<br>HMRC £ 87.00<br><br>Ychwanegwyd:<br><br>Hughes – Jones, Dyson & Co £408.00<br><br>****** Cymeradwywyd i dalu'r uchod ******<br><br>Derbyniadau<br><br>Dim<br><br>Balansau Cyfrifon Banc<br><br>Cyfredol: £951.64<br>Cadw: £39,000 |
| 17. | Dewis gohebiaeth i fynd i'r wasg/Gwefan | Siaradwr Gwadd<br>Cyfrifon |

**Dyddiad y cyfarfod nesaf: 2il o Orffennaf 2026**